O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 347 (Cy. 59)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Ffordd Ymadael Tua'r Gorllewin wrth Gyffordd 23a (Magwyr), Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

Wedi'i wneud *10 Chwefror 2012*

Yn dod i rym *21 Chwefror 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarn penodedig o'r draffordd gael ei wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Chwefror 2012 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Ffordd Ymadael Tua'r Gorllewin wrth Gyffordd 23a, (Magwyr), Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 21 Chwefror 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;